



Canolradd (Gogledd)

Chwarae'r Gêm - Act 6



(Nodyn i'r Tiwtor: Os dach chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y gogledd) mi fydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 8.)

Yn y casino. Mae grŵp bach yn cyfarfod mewn ystafell yn y cefn – Michael, Denzil, Greg, Tomi ac un dyn arall.

Michael: Noswaith dda. Faint o bobl sy i mewn heno, Denz?

Denzil: Yn y casino? Dau gant.

Tomi: Faint o'r bobl sy'n newydd i'r casino?

Denzil: Dros hanner. Dynion busnes, ymwelwyr. Mae rhai sy'n dŵad bob nos ond dyn nhw ddim yn betio llawer.

Greg: Ac wedyn, mae 'na bobl fel ni....

Denzil: Wrth gwrs....y gamblwyr mawr. Ac mae gynnon ni un newydd heno, gyda llaw. Dyma Larry.

Greg: Croeso, Larry. Sut oeddech chi'n gwybod am y grŵp yma?

Larry: Ffrind. Roedd o'n gwybod mod i isio gêm fawr.

Greg: Dyna dan ni'n licio yma! Rholwyr uchel! Dach chi yn y lle iawn. Mil i ddechrau?

Pawb: lawn.

Greg: Lle mae Colin heno?

Denzil: Thalodd o mo'i fil. Doedd y bos ddim yn hapus.

Tomi: Ydy'r bos wedi sysbendio'r cownt?

Denzil: Mae'r bos wedi sysbendio Colin. Mi ddwedais i wrtho fo. Chymerodd o ddim sylw. Chymerodd o ddim sylw o gwbl.

Tomi: Be' ddigwyddodd?

Denzil: Mi aeth o i weld Caerddinas yn chwarae ond wnaeth o ddim gweld y gêm.

Tomi: Colin druan.

Denzil: Mae 'na broblem arall. Mae'r bos yn nerfus – yn nerfus iawn. Mae o isio ei bres i gyd erbyn yr wythnos nesa.

Michael: Yr wythnos nesa? Amhosib! Dydy'r pres ddim gen i. Dw i isio siarad â'r bos.

Denzil: lawn, Michael. Ond chymeriff o ddim (Chymerith o ddim) sylw ohonot ti. Mil o bunnau i ddechrau...?

Geirfa

Gyda llaw – by the way

Ymwelwyr - visitors